DEDDF RHENTU CARTREFI (CYMRU) 2016

EXPLANATORY NOTES

SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

Rhan 9 – Terfynu Etc. Contractau Meddiannaeth

Pennod 5 - Terfynu Contractau Safonol Cyfnodol

Adran 177 - Cyfyngiadau ar adran 173: torri gofynion sicrwydd a blaendal

408. Ni chaiff landlord roi hysbysiad adennill meddiant o dan y teler o'r contract sy'n ymgorffori adran 173 os cymerwyd sicrwydd ar ffurf nad yw'n cydymffurfio ag adran 43 (hynny yw, ffurf heblaw arian neu warant), ac nad yw wedi ei ddychwelyd.

409. Rhwystrir landlord rhag rhoi hysbysiad o dan y teler o'r contract sy'n ymgorffori adran 173 hefyd (yn ddarostyngedig i'r eithriad isod) os na ddiogelwyd blaendal o dan gynllun blaendal awdurdodedig; os talwyd blaendal ond nad yw'r landlord wedi bodloni gofynion dechreuol y cynllun blaendal; neu os talwyd blaendal ond na ddarparwyd yr wybodaeth sy'n ofynnol o dan y teler o'r contract sy'n ymgorffori adran 45(2)(b) (hynny yw, gwybodaeth a ragnodir drwy reoliadau o dan adran 45(3)) i ddeiliad y contract.

410. Nid yw'r cyfyngiadau yn y paragraff uchod ar roi hysbysiad yn gymwys pan fo blaendal wedi ei ddychwelyd neu pan fo materion yn ymwneud â chais i'r llys o dan baragraff 2 o Atodlen 5 wedi dod i ben. Mae adran 20 yn darparu bod rhaid ymgorffori'r adran hon heb ei haddasu ym mhob contract safonol cyfnodol, oni bai nad yw'r contract yn ymgorffori adran 173 fel teler.